Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Cod Ymddygiad Myfyrwyr
(Addysg Bellach)

Dyddiad Cyhoeddi	**Gorffennaf 2019**
Dyddiad Adolygu	**Gorffennaf 2022**
Awdur	**Tom Snelgrove** **Rheolwr Profiad a Lles Dysgwyr**
Lleoliad y Polisi	**BIZ-Sharepoint / Intranet / Policies & Procedures / Learner Services & Support**
Cymeradwywyd y polisi gan:	**Dirprwy Bennaeth**

Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser:

Eich Ymddygiad

1. Byddwch yn ymddwyn mewn modd rhesymol, parchu eraill a dangos pryder am yr amgylchedd.

2. Ni fyddwch yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o aflonyddu a byddwch yn gwerthfawrogi treftadaeth gymunedol a diwylliannol amrywiol y Coleg.

3. Os ydych yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio trais corfforol yn erbyn unrhyw aelod o gymuned y Coleg, ei staff neu ddysgwr, byddwch yn cael eich gwahardd ar unwaith tra bydd ymchwiliad.

4. Ni fyddwch yn difrodi neu ddifwyno eiddo yn unrhyw ran o'r Coleg, ar unrhyw gludiant neu unrhyw safle arall y byddwch yn ymweld ag ef. Os byddwch yn gwneud hynny, chi fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau atgyweirio.

5. Ni fyddwch yn cymryd rhan mewn unrhyw fath o gamblo ar safleoedd y Coleg.

6. Rhaid i chi barchu holl bolisïau'r Coleg. Mae'r rhain i'w gweld ar y wefan, yn yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr ac yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu neu gallwn eu darparu ar gais.

Eich Rhaglen Waith

7. Mae disgwyl i chi ddod â'r offer priodol i ddarlithoedd, gyda'r deunyddiau cwrs perthnasol.

8. Ni chaniateir defnyddio ffonau symudol (gan gynnwys fideos) mewn mannau dysgu, oni bai bod y darlithydd wedi rhoi caniatâd penodol.

9. Os ydych chi wedi cael eich adnabod fel rhywun sydd ag angen cymorth ychwanegol dylech fynychu sesiynau sgiliau astudio.

10. Disgwylir i chi gyfrannu at bob prosiect tîm a gweithgaredd grŵp.

11. Ar gyfer cyrsiau priodol, rhaid i chi ddangos y byddwch yn gymwys i ymarfer ym maes eich dewis gyrfa a'ch bod yn gallu cydymffurfio â gofynion y cyflogwr perthnasol neu gorff proffesiynol.

12. Mae gofyn i chi gwblhau'r holl waith a osodwyd gan ddarlithwyr erbyn y dyddiadau y cytunwyd arnynt.

13. Caiff gwaith hwyr ei farcio yn ôl disgresiwn y darlithydd, ac ni fyddwch yn cael cyfle i ailwneud gwaith a gyflwynir ar ôl y dyddiad a bennwyd.

14. Os na fyddwch yn bodloni'r terfynau amser a osodwyd gan y Corff Dyfarnu efallai y bydd eich gwaith yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr asesiad nesaf. Gall hyn amharu ar eich cyfle i symud ymlaen i Addysg Uwch neu gyflogaeth.

15. Rhaid i chi gwblhau'r arholiadau mewnol ac allanol ac asesiadau yn llwyddiannus, lle y bo'n briodol, er mwyn symud ymlaen ar y cwrs.

16. Efallai y bydd y Coleg yn gofyn i chi dynnu'n ôl o'ch cwrs, neu gall wrthod caniatáu i chi geisio am asesiadau allanol os yw un neu bob un o'r canlynol yn anfoddhaol: cynnydd, presenoldeb a chyrhaeddiad.

17. Rhaid i draethawd ymchwil, traethawd estynedig, neu unrhyw draethawd neu waith cwrs arall, nad yw'n cael ei gynnal o dan amodau arholiad ffurfiol, ac sy'n cyfrif tuag at eich cymhwyster, fod eich gwaith eich hun ac ni ddylai gynnwys deunydd wedi'i lên-ladrata. Bydd defnyddio deunydd wedi'i lên- ladrata yn y gwaith cwrs yn cael ei drin fel trosedd disgyblu o dan y Cod Ymddygiad hwn. Mae llên-ladrad yn cael ei ddiffinio fel "dyfynnu darnau neu aralleirio'n agos gwaith gan awduron eraill heb gydnabyddiaeth". Rhaid nodi unrhyw ddarnau wedi'u dyfynnu neu eu haralleirio fel dyfyniadau neu aralleiriadau, a rhaid cydnabod ffynonellau y deunydd a ddyfynnir neu a aralleirir. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn dilyn y rheolau a nodwyd gan y Corff Dyfarnu neu'r Bwrdd Arholi. Mae copi o'r rheolau ar gael ar wefan y Coleg.

18. Os ydych yn cael eich amau o dwyllo mewn arholiad dan oruchwyliaeth, byddwch yn agored i god disgyblu'r Bwrdd Arholi / Corff Dyfarnu, ac mae copi o'r rhain ar gael ar wefan y Coleg.

19. Os hoffech dynnu'n ôl o gwrs / modiwl / arholiad ar ôl cofrestru / mynediad, bydd rhaid i chi dalu'r ffi briodol. Bydd hon yn cael ei hepgor mewn achosion o salwch neu amgylchiadau personol eithriadol yn ôl disgresiwn y Coleg. Bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddfa Arholiadau am gadarnhad.

Eich Presenoldeb

20. Mae eich presenoldeb yn agored i'r Polisi Presenoldeb Myfyrwyr a nodwyd yn y Cod Ymddygiad hwn.

    a. Mae presenoldeb yn yr holl ddosbarthiadau yn orfodol, gan gynnwys lleoliadau gwaith. Disgwylir i chi gyflawni presenoldeb o 100%. Bydd eich presenoldeb yn cael ei fonitro

a gall unrhyw batrwm o absenoldeb arwain at gamau disgyblu.

b. **Ni** ddylid cymryd gwyliau yn ystod y tymor.

c. Nid yw absenoldebau heb awdurdod yn dderbyniol.

ch. Rhaid hysbysu'r Coleg pan fydd amgylchiadau yn eich atal rhag bod yn bresennol yn y Coleg.

d. Os ydych yn absennol o'r coleg am fwy na 4 wythnos heb roi gwybod i'r unigolyn priodol yn y Coleg, bydd y Coleg yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi gadael. Ni fydd gweithdrefnau disgyblu myfyrwyr y Coleg yn berthnasol, ond mae gan fyfyrwyr yr hawl i apelio.

dd. Rhaid i chi gyfyngu ar unrhyw waith rhan-amser fel nad yw'n effeithio ar eich astudiaethau yn y Coleg.

21. Cyfeiriwch at y Polisi Presenoldeb Myfyrwyr i gael manylion llawn. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Cod Ymddygiad hwn a'r Polisi Presenoldeb Myfyrwyr, bydd y Polisi Presenoldeb Myfyrwyr yn cael ei ddilyn.

Eich Iechyd a Diogelwch

22. Bydd myfyrwyr amser llawn yn cael cerdyn adnabod myfyriwr / cerdyn llyfrgell a bydd disgwyl iddynt ei gario gyda nhw bob amser.

23. Mewn argyfwng, rhaid dilyn y weithdrefn wacáu briodol. Mae gan y Coleg offer tân ac offer cymorth cyntaf.

24. Os ydych yn dioddef o unrhyw gyflwr meddygol, anabledd neu'n cymryd meddyginiaethau rhagnodedig gofynnir i chi ddatgelu'r wybodaeth hon pan fyddwch yn derbyn eich cwrs neu ddweud wrth eich tiwtor yn ystod eich sesiwn sefydlu.

25. Os ydych yn dioddef o unrhyw anabledd corfforol a / neu anhawster dysgu na chafodd ei ddatgelu adeg gwneud cais neu yn ystod y cyfweliad, rhaid i chi roi gwybod i'ch tiwtor.

26. Rhaid i'r Coleg gael gwybod am unrhyw feddyginiaeth awdurdodedig rydych yn ei chymryd.

27. Rhaid i chi roi gwybod i'r Coleg am unrhyw newid cyfeiriad a / neu rif ffôn.

28. Os ydych wedi cael damwain yn y Coleg, neu os ydych yn dioddef o salwch heintus, rhaid i chi roi gwybod i Ymgynghorwyr Iechyd Myfyrwyr y Coleg ar unwaith.

29. Ni chaniateir defnyddio alcohol, toddyddion na chyffuriau ar safleoedd y Coleg, ar drafnidiaeth, yn ystod gweithgareddau neu ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod Coleg. Bydd unrhyw ddysgwr y canfyddir ei fod yn meddu ar, yn defnyddio, neu'n dangos effeithiau diodydd meddwol, cyffuriau neu anterthau cyfreithlon, yn cael ei wahardd ar unwaith, tra bydd ymchwiliad. Os bydd tystiolaeth yn cadarnhau bod y myfyriwr o dan ddylanwad alcohol, cyffuriau neu anterthau cyfreithlon, neu fod y cyffuriau hyn yn eu meddiant, efallai y bydd yn wynebu gwaharddiad parhaol. Os yw'r myfyriwr yn cydnabod bod angen cymorth arno, gall y Coleg gytuno i'r myfyriwr gael ei roi ar rybudd terfynol er mwyn iddo allu parhau â'i astudiaethau, ar yr amod bod y myfyriwr yn cytuno i gael cymorth gyda Choices, Barod ac yn cytuno i ganiatáu i Barod rannu gwybodaeth am ei gynnydd â'r Coleg. Byddai unrhyw achosion dilynol yn arwain at waharddiad.

30. Rhaid i chi beidio â mynd i mewn i labordy neu weithdy hyd nes y bydd aelod o staff yn bresennol. Mewn rhai achosion efallai y byddwch yn cael mynediad i labordy cyfrifiaduron os oes tocyn gennych.

31. Rhaid i chi ddilyn y cyfarwyddiadau penodol ynghylch defnyddio'r llyfrgell, y labordai a'r gweithdai a hefyd y rhai sy'n ymwneud â thocynnau bws.

32. Gallwch fwyta ac yfed yn ardaloedd penodedig y Coleg yn unig.

33. Ni chaniateir ysmygu ar safleoedd y Coleg (ac eithrio ardaloedd dynodedig) na thrafnidiaeth y Coleg.

34. Rhaid rhoi sbwriel yn y biniau yn yr adeiladau a'r biniau o'u cwmpas.

35. Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n bygwth iechyd a diogelwch pobl eraill, e.e. drwy loetran ar risiau, mewn tramwyfeydd neu allanfeydd tân; ymyrryd â diffoddwyr tân, larymau tân ac ati.

36. Caniateir gweithgareddau chwaraeon, gan gynnwys sgrialu, yn yr ardaloedd dynodedig yn unig.

Eich Cerbyd

37. Oherwydd mannau parcio cyfyngedig yn y Coleg, anogir myfyrwyr i beidio â dod â cheir i'r Coleg. Os byddwch yn penderfynu dod â'ch car i'r Coleg, dylech ei barcio mewn lle dynodedig **yn unig**.

38. Os na fyddwch yn cadw at y terfynau cyflymder a'r trefniadau parcio byddwch yn colli'ch hawliau parcio a byddwch yn wynebu camau disgyblu.

39. Rhaid i chi roi gwybod i staff y Dderbynfa os yw'ch cerbyd wedi achosi unrhyw niwed i eiddo coleg neu gerbydau eraill ar safleoedd y Coleg.

40. Caiff ceir eu parcio ar eich risg eich hun. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod.

Eich Eiddo ac Adnoddau Coleg sydd ar Fenthyg i Chi

41. Mae eitemau gwerthfawr sy'n cael eu gadael mewn unrhyw ystafell, ystafell gotiau, neu goridor yn y Coleg neu yn eich car yn cael eu gadael ar eich risg eich hun. Ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod.

42. Rhaid i chi ddychwelyd yr holl lyfrau ac offer sydd ar fenthyg i chi, cyn i chi adael y Coleg. Mae hyn yn cynnwys unrhyw offer sydd wedi cael eu rhoi drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn e.e. cit neu docynnau bws. Os byddwch yn methu â gwneud hyn efallai y bydd y Coleg yn gwrthod unrhyw geisiadau yn y dyfodol.

43. Byddwch yn gyfrifol am y gost o ganlyniad i unrhyw ddifrod neu golledion a gallwn gymryd camau cyfreithiol i adennill y gost os byddwch yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn.

Torri'r Cod Ymddygiad

44. Bydd myfyrwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad yn wynebu camau disgyblu.

45. Wrth ddehongli'r Cod Ymddygiad hwn mae penderfyniad y Coleg yn derfynol.

46. Gall y Coleg newid y Cod Ymddygiad hwn ar unrhyw adeg neu ei anwybyddu yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Dogfennau Perthnasol

47. Mae'r dogfennau perthnasol yn cynnwys:

a. Gweithdrefn Presenoldeb Myfyrwyr
b. Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr
c. Polisi Cyffuriau ac Alcohol

Yr Iaith Gymraeg

48. Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a bydd yn ymdrechu i ddelio ag anghenion siaradwyr Cymraeg a'u cefnogi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Coleg.